Croeso i'r gyfres hon o gardiau gweddi ar gyfer plant 4-8 oed (maent hefyd yn addas ar gyfer plant hŷn ag anghenion ychwanegol).

Mae'r cardiau hyn wedi'u cynllunio i helpu plant i weddïo gan roi ysgogiad iddynt trwy luniau, geiriau a symbolau. Mae yna 26 o gardiau gwahanol, pob un â thema syml. Mae yna hefyd set gyfatebol o gardiau ar gael ar gyfer plant 8-12 oed.

Gellir lawrlwytho'r ddwy set fel PDF i'w hargraffu o www.urc.org.uk/your-faith/children-young people/children-youth-work neu o www.ysgolsul.com

Y gobaith yw cefnogi plant yn eu hysbrydolrwydd eu hunain trwy roi awgrymiadau gweledol agored a syml iddynt, fel y gallant lunio eu gweddïau eu hunain gan ddefnyddio geiriau, gweithredoedd, distawrwydd neu unrhyw fodd arall y maent yn ei ddewis. Gellir defnyddio'r cardiau hyn i ysbrydoli plant wrth arwain gweddïau mewn grŵp.

Defnyddir symbolau teclyn gyda chaniatâd caredig.

Darluniau cerdyn ©Awst Richards

Cyngor Ysgolion Sul

The United Reformed Church Children




# Cardiau Gweddi

## AR GYFER PLANT DAN 8 OED

Pecyn o 26 cerdyn lliwgar gyda lluniau, geiriau a symbolau i helpu plant i weddïo

Delfrydol i'w ddefnyddio gyda grŵp yn yr eglwys neu yn y cartref

# Canllawiau ar sut i ddefnyddio'r cardiau annog gweddi gyda plant 4-8 oed.

## Ffyrdd o gynnig y cardiau i blant:

- Gosodwchwch y cardiau allan  ar fwrdda gadewch iddyn nhw ddewis cerdyn
- Pasiwch y cardiau o gwmpas neu deliwch allan un i bawb
- Dewiswch ar hap
- Dewiswch gerdyn i ffitio eich thema

## Wedi'i ysgogi gan y geiriau, symbolau a lluniau efallai y bydd plant yn dewis:

- Siarad am y llun gyda Duw
- Darllen y weddi allan yn uchel
- Adrodd eu gweddi eu hunain
- Myfyrio ar y llun yn dawel

## Gall eraill ymuno drwy:

- Ailadrodd geiriau allweddol neu ymateb
- Defnyddio gweithredoedd/symudiadau neu arwyddion Makaton
- Tynnu llun neu sillafu geiriau yn yr awyr neu ar gledr eich llaw gyda'ch bysedd
- Helpu pawb drwy egluro rhywbeth

## Mae AMEN yn golygu 'rydym yn cytuno, dyma ein gweddi ni hefyd'
## Archwiliwch ffyrdd o ddweud AMEN gyda'ch gilydd:

- Symudwch eich dwylo o'r llawr i'r uchelder
- Defnyddiwch arwydd Makaton – gwnewch 'bawd i fyny' gyda'r ddwy law a dod â'r bodiau ynghyd
- Bloeddio'n uchel
- Sibrwd yn ddistaw
- Clapio i rythm

